



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Ein Harglwyddes  
Ffordd Caernarfon  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 2UT**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Ein Harglwyddes

Ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyr ym Mangor yn awdurdod lleol Gwynedd yw Ysgol Ein Harglwyddes. Mae'r ysgol yn gwasanaethu plwyfi Catholig Rhufeinig Bangor, Bethesda, Porthaethwy a Llangefni, ac mae rhai disgyblion yn teithio pellterau sylweddol i fynd i'r ysgol.

Mae 126 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 11 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn pedwar dosbarth oedran cymysg.

Mae tua 14% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 19%. Mae'r ysgol yn datgan bod 41% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion ychwanegol ac mae hyn gryn dipyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae mwyafrif y disgyblion o grwpiau ethnig heblaw gwyn Prydeinig, ac o ganlyniad, mae gan yr ysgol ganran uchel (66%) o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n siarad Cymraeg gartref.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Medi 2011 ac mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2015.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.  
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

## Crynodeb

Mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac maent wedi sefydlu ethos gofalgarn ynghyd â ffocws llwyddiannus ar sicrhau bod disgyblion yn cyflawni'n dda erbyn iddynt adael yr ysgol. Mae gweithdrefnau gwella ansawdd effeithiol wedi sicrhau cynnydd cynaledig dros gyfnod mewn safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r ffordd y mae'r ysgol yn datblygu medrau llythrennedd canran uchel y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gryfder amlwg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol â medrau sydd islaw'r lefel ddisgwyliedig am eu hoedran. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni'n dda o'u manau cychwyn. Mae safonau lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

## **Argymhellion**

- A1 Sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddatblygu'r ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a rhifedd
- A2 Cynyddu defnydd disgyblion o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol
- A3 Gwneud defnydd gwell o arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau i alluogi arweinwyr i nodi meysydd y mae angen eu gwella

## **Beth sy'n digwydd nesaf**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Da

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion islaw'r lefel ddisgwylledig am eu hoedran. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda o'u manau cychwyn. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a mwyafrif y disgyblion sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau siarad a gwranddo effeithiol ac yn siarad ag ymwelwyr yn frwd am yr hyn y maent yn ei wneud yn yr ysgol, er enghraifft wrth ddisgrifio sut maent yn gofalu am Rosie, sef iâr yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn mynegi eu barn ac yn ateb cwestiynau'n dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwranddo'n ofalus ar gyflwyniadau ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r prif bwyntiau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynegi syniadau a barn yn glir, gan weithio'n dda gyda'i gilydd i helpu'r grŵp i gytuno, er enghraifft mewn dadl ddosbarth ar hawliau'r plentyn.

Daw llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus ac annibynnol dros gyfnod. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn datblygu strategaethau ffoneg effeithiol ac yn defnyddio cliwiau llun neu gyd-destun yn briodol i ddatgodi geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, daw llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr brwd. Defnyddiant fedrau darllen lefel uwch, fel brasddarllen a bwrw golwg, i chwilio am wybodaeth am wledydd ar-lein neu mewn llyfrau. Mae llawer ohonynt yn darllen er pleser ac yn trafod manylion am y prif gymeriadau yn eu llyfrau.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda at amrywiaeth o ddibenion ar lefel briodol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn adnabod nodweddion llythyr, ac yn defnyddio'r rhain yn gywir wrth ysgrifennu llythyrau am eu gwyliau. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn strwythuro eu hysgrifennu yn rhesymegol, er enghraifft trwy ystyried dechrau, canol a diwedd eu storïau neu wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau i bobi cacen gwpan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n gymwys, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cynllunio eu hysgrifennu'n ystyriol. Defnyddiant eirfa briodol ac iaith sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa, er enghraifft wrth greu taflen berswadiol neu wrth ysgrifennu erthygl papur newydd am y Tuduriaid. Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu llawysgrifen rwydd a darllenadwy, er bod cyflwyniad ychydig iawn ohonynt yn anniben.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau rhifedd da, ac yn eu defnyddio ar draws y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall patrymau rhif a gwerth lle i fyny i 100 ac mae medrau ariannol a mesur llawer o ddisgyblion yn gadarn. Er enghraifft, maent yn adnabod gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £1, yn darllen tymereddau ar thermometr ac yn rhoi tymereddau yn eu trefn yn gywir, gan gynnwys y rheiny islaw sero. Mae llawer ohonynt yn galw ffeithiau rhif i gof yn dda ac yn defnyddio eu medrau rhesymu'n llwyddiannus i gyfrif cost dwy gacen gwpan am brisiau gwahanol a'r darnau arian y byddent yn eu defnyddio i dalu. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio data yn gynyddol gywir ac yn ei gyflwyno mewn gwahanol ffurfiau, er enghraifft wrth greu graff bar ar hoff fwyd disgyblion.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae safonau'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwrsi mathemateg yn dda. Maent yn deall gwerth lle ac yn galw ffeithiau rhif i gof yn dda, gan gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn hyderus mewn sefyllfaoedd newydd. Maent yn delio â rhifau yn y miliynau wrth ddadansoddi data sy'n gysylltiedig â'u testun dosbarth, sef 'Pe bai'r byd yn bentref'. Mae bron pob un ohonynt yn cynrychioli data'n bwrpasol, gan ddefnyddio rhestrau, siartiau cyfrif, tablau, diagramau a thablau amledd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu medrau rhesymu rhifiadol da wrth ddatrys problemau go iawn, fel penderfynu'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno data yn eu gwaith testun neu drefnu parti plant yn unol â chyllideb benodol. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cyfle, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn caffael dealltwriaeth o sut i aros yn ddiogel ar-lein. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn llwyddiannus mewn gweithgareddau llythrennedd a thrin data. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn llwyddo i fewngofnodi ar eu cyfrif Hwb yn annibynnol, yn creu taflenni gwybodaeth ac yn chwilio am wybodaeth oddi ar y we am eu gwaith thematig. Mae llawer ohonynt yn creu graffiau cywir fel rhan o arbrawf gwyddoniaeth, er enghraifft i ddangos beth mae disgyblion yn ei ailgylchu gartref. Fodd bynnag, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn chwiloa mewn cronfeydd data, yn eu defnyddio nac yn eu creu ac nid yw eu medrau modelu wrth ddefnyddio taenlenni wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae gan llawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. O ddechrau'r cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn dilyn cyfarwyddiadau sylfaenol yn dda ac yn defnyddio geiriau ac ymadroddion syml yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn adeiladu ar eu medrau siarad yn briodol, gan ddefnyddio amser y gorffennol a chynnwys mwy o fanylion yn eu hatebion. Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi barn wedi'i chefnogi gan resymau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio digon o Gymraeg yn ystod sefyllfaoedd anffurfiol. Mae llawer ohonynt yn darllen eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus ac mae disgyblion hŷn yn darllen testunau syml gyda rhywfaint o ddealltwriaeth. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu yn Gymraeg at ystod o ddibenion. Mae gan fwyafrif o ddisgyblion iau amgyffrediad cadarn o strwythurau brawddeg sylfaenol. Er enghraifft, maent yn disgrifio cymeriadau, ac yn ysgrifennu am eu hoffterau a'u casbethau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu at ystod o wahanol ddibenion, gan gynnwys cyfarwyddiadau, gyda chywirdeb a manylder cynyddol.

### **Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn un o gryfderau'r ysgol ac mae'n adlewyrchu ethos gofalgwr yr ysgol yn dda. Mae disgyblion yn gwrtais iawn tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae disgyblion hŷn yn hynod o ofalgwr tuag at y disgyblion iau, ac mae'r ffordd y mae pawb yn croesawu disgyblion newydd o gefndiroedd amrywiol ac yn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol yn gryfder arbennig. Mae hyn yn helpu creu ethos cynhwysol yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu gymorth pan fyddant yn poeni am rywbeth. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd aros yn ddiogel ar y rhyngwrwyd yn gadarn ar draws yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol iawn o anghenion disgyblion eraill yn yr ysgol, yn lleol a thramor. O ganlyniad, maent yn codi arian ac yn cyfrannu tuag at elusen epilepsi leol ac elusen genedlaethol sy'n ymwneud â rhaglen fyd-eang i ddileu polio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd. Mae llawer ohonynt yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig ac yn cwblhau eu gwaith yn llwyddiannus ar y cyfan. Nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriad ac maent yn awgrymu gwahanol ffyrdd o ddatrys problem, er enghraifft wrth ymgymryd â thasgau rhifedd.

Yn gynyddol, mae disgyblion yn cyfrannu'n briodol at wneud penderfyniadau yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn frwdfrydig ynglŷn ag ymgymryd â swyddi cyfrifol. Mae gwaith diweddar aelodau o wahanol bwyllgorau disgyblion yn ddyllanwad pwysig ar fywyd yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cydweithio'n hyderus i gynrychioli safbwyntiau eu cyfoedion ac maent yn adrodd yn ôl iddynt yn rheolaidd. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn hapus yn ystod amser chwarae, ac yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno 'arhosfan ffrindiau' ar gyfer y rheiny sy'n teimlo'n unig. Mae aelodau o grŵp gweithgar Rota Kids wedi helpu codi arian trwy werthu cacennau wedi'u haddurno a chardiau San Ffolant er mwyn gwella'r ardd a sicrhau cit pêl-rwyd i'r ysgol. Maent yn hynod weithgar yn codi ymwybyddiaeth y gymuned am yr angen i gymryd gofal wrth yrru heibio'r ysgol.

Mae dealltwriaeth disgyblion o ffordd iach o fyw yn datblygu'n dda. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn clybiau gweithgareddau ar ôl yr ysgol ac yn mwynhau'r hyfforddiant pêl-droed a gynigir gan y tîm pêl-droed lleol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth dda am y problemau a achosir gan gamddefnyddio sylweddau, alcohol a thybaco ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae disgyblion hŷn yn hyrwyddo bwyta'n iach trwy drefnu prynu a gwerthu ffrwythau yn ystod amser chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o rieni a disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i ymdrechion mynych yr ysgol a'r swyddog lles i gynyddu cyfraddau presenoldeb. O ganlyniad, mae presenoldeb disgyblion yn gwella, ac am y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n cymharu'n dda â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg.

### **Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae pob un o'r athrawon yn sicrhau diddordeb disgyblion yn llwyddiannus ac yn defnyddio ystod o gyflwyniadau ysgogol i wersi. Mae hyn yn amrywio o ddefnyddio iâr yr ysgol yn y cyfnod sylfaen i ddefnyddio pytau ar-lein wedi'u dewis yn ofalus i ysgogi diddordeb ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Ceir perthynas weithio effeithiol rhwng y disgyblion a phob un o'r staff. Mae staff yn creu amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol, sy'n galluogi disgyblion i ymateb yn dda i dasgau. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol iawn ac mae hyn yn gryfder ar draws yr ysgol.

Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u galluoedd. Maent yn ymateb yn bwrpasol i'w hanghenion a'u diddordebau trwy baratoi gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer gwahanol ofynion disgyblion. Maent yn hynod fedrus yn datblygu medrau ieithyddol disgyblion y mae Saesneg yn iaith

ychwanegol iddynt. Mae'r cynnydd a wna'r disgyblion hyn erbyn diwedd Blwyddyn 6 yn brawf o gryfder y ddarpariaeth a gynigir gan yr ysgol. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, a gyda gwirfoddolwyr sydd wedi eu hyfforddi gan y brifysgol, i ddatblygu medrau darllen disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. O ganlyniad i strategaethau ymyrraeth effeithiol, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau darllen a deall.

Mae athrawon yn rhannu nodau'r wers gyda disgyblion yn bwrpasol ac yn esbonio tasgau'n glir i sicrhau bod pob disgybl yn deall beth i'w wneud. Mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus i ddatblygu eu dealltwriaeth ac asesu eu gwybodaeth. Mae adborth athrawon i ddisgyblion yn bwrpasol; mae'n canmol ac yn herio dealltwriaeth disgyblion yn briodol. Mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion, sy'n dathlu cryfderau ac yn nodi'n glir sut gall disgyblion wella eu gwaith. Yn gyffredinol, mae athrawon yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddigon o amser i ymateb i adborth. O ganlyniad, mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i wella eu gwaith, ac maent yn gwneud cynnydd da.

Mae athrawon y cyfnod sylfaen yn darparu ystod briodol o weithgareddau wedi eu harwain gan athrawon a rhai wedi eu harwain gan blant, sy'n datblygu eu medrau'n dda, gan gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ymchwilio ac ymarfer eu medrau corfforol a chreadigol. Mae llawer o weithgareddau yn galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau a gweithio'n annibynnol. Er enghraifft, mae disgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau o ddyfeisiau electronig ac wedyn yn cofnodi eu gwaith gan ddefnyddio dyfeisiau llechen cyn symud ymlaen at y dasg nesaf heb arweiniad gan yr athro.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Mae athrawon yn darparu amrywiaeth o weithgareddau diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm ac yn ymateb yn llwyddiannus i anghenion disgyblion. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r athrawon yn rhoi cynlluniau rhifedd yr ysgol ar waith yn llawn. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon aml. Mae darpariaeth ar gyfer TGCh yn y cyfnod sylfaen yn dda ac yn sicrhau bod disgyblion yn profi'r amrywiaeth o fedrau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr elfen medrau cyfathrebu mewn TGCh yng nghyfnod allweddol 2 yn dda, ond nid yw athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion greu neu chwilota mewn cronfeydd data neu ddefnyddio taenlenni at ddiben ar draws y cwricwlwm.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol ethos hynod gynhwysol, ac mae athrawon yn cefnogi datblygiad personol disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Ceir gweithdrefnau effeithiol ar gyfer helpu disgyblion i ddeall sut i wneud dewisiadau iach am ffordd o fyw, fel hyrwyddo'r siop ffrwythau boblogaidd. Ar draws yr ysgol, rhoddir pwyslais priodol ar ddatblygu agweddau cadarnhaol at ffordd egniol o fyw. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan yn nhwrnameintiau chwaraeon cystadleuol yr esgobaeth ac maent yn manteisio ar weithdai egniol a gyflwynir gan yr Urdd. Mae hyn yn helpu magu hyder disgyblion, yn ogystal â datblygu eu medrau cymdeithasol wrth iddynt gyfarfod a chryfhau cyfeillgarwch â disgyblion o ysgolion eraill.



Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae ffocws addas ar ddarparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau pwysig fel rhan o gymuned yr ysgol. Mae Llais y Disgybl a gwneud penderfyniadau trwy grwpiau fel y cyngor ysgol, Rota Kids a'r Criw Cymraeg yn datblygu'n briodol ac yn rhoi cyfle i ddisgyblion wneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd ysgol. Enghraifft o'r gwaith hwn yw'r effaith gadarnhaol a gaiff aelodau o'r Criw Cymraeg ar godi proffil y Gymraeg trwy ddathlu ymdrechion a chyflawniadau disgyblion mewn gwasanaethau ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am eu diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach yn eu gwersi, trwy wasanaethau a gweithgareddau cyfoethogi rheolaidd, gan gynnwys ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd i ddysgu am chwedlau enwog Cymru, fel Twm Siôn Cati a seintiau Cymru ac fe gânt fewnwelediad addas ar dreftadaeth Cymru. Mae'r ysgol gyfan yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i ddysgu am ddiwylliannau eraill. Trwy brosiect rhyngwladol, caiff disgyblion fewnwelediad gwerthfawr ar fywydau a threftadaeth gwahanol gymunedau fel y rheiny yn Tsieina. Mae hyn yn cynnig profiadau gwerth chweil i ddisgyblion gymharu a chyferbynnu eu ffyrdd o fyw eu hunain a phobl eraill. Mae'r gweithgareddau hyn yn ysbrydoli disgyblion i fod yn ddysgwyr brwdfrydig a gwerthfawrogi nodweddion tebyg a goddef gwahaniaethau mewn pobl eraill.

Mae athrawon yn asesu medrau disgyblion yn gywir pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae systemau priodol ar waith ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion wrth iddynt symud rhwng grwpiau blwyddyn. Mae hyn yn helpu athrawon i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae'r ysgol yn darparu ystod ddefnyddiol o ymyriadau i helpu disgyblion a nodwyd i wneud cynnydd da, gan gynnwys cynllunio gofalus i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Nodwedd arbennig o dda yw'r ffordd y mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu creadigol i ddatblygu medrau iaith disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. O ganlyniad i strategaethau ymyrraeth effeithiol, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau darllen a deall.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i nodi targedau buddiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn rhannu'r rhain yn rheolaidd gyda rhieni, ac yn gwneud defnydd da o gyngor gan asiantaethau allanol pan fydd yr angen yn codi. Maent yn adolygu cynnydd disgyblion yn unol â'u targedau yn rheolaidd ac yn cynnwys disgyblion a rhieni yn yr adolygiad blynyddol.

Mae gan yr ysgol ethos meithringar cryf, gyda ffocws gweithredol ar gefnogi lles ysbrydol ac emosiynol disgyblion. Er enghraifft, mae gwasanaethau ysgol gyfan a gwasanaethau dosbarth yn darparu cyfleoedd dyddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o werthoedd a dathlu cyflawniadau ei gilydd. Mae'r pwyslais moesol ac ysbrydol yn helpu disgyblion i ddatblygu parch amdanyn nhw eu hunain a phobl eraill, gan werthfawrogi'r gwahaniaethau a'r nodweddion tebyg rhwng pobl.

Mae'r ysgol yn monitro ac yn olrhain presenoldeb disgyblion yn dda, ac mae gwaith diweddar gyda'r swyddog lles yn sicrhau bod disgyblion a rhieni'n deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mae adeilad a thir yr ysgol yn ddiogel a saff. Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## **Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Ers penodi'r pennaeth, bu gwelliant parhaus mewn safonau, deilliannau a darpariaeth ar y cyfan. Mae hi a'r dirprwy bennaeth wedi gweithio'n dda gyda'r llywodraethwyr ac ymgynghorydd her y consortiwm rhanbarthol i ddarparu synnwyr clir o gyfeiriad ar gyfer yr ysgol. Rhoddir pwyslais cryf ar sicrhau lles disgyblion a chyflawni safonau da. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n glir ar safonau a darpariaeth. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i greu ethos gofalgaf a pharchus ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol i lywio eu harfarniad o gryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau dysgu, dadansoddi data a chasglu barn rhieni a disgyblion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio arsylwadau gwersi nac yn craffu ar lyfrau disgyblion fel rhan o'r broses hunanarfarnu yn ddigon aml. O ganlyniad, er bod yr adroddiad hunanarfarnu yn nodi a chrynhofi llawer o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn briodol, mae'n colli rhai meysydd pwysig i'w datblygu ymhellach. Enghraifft o hyn yw peidio â nodi'r diffyg darpariaeth rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae cynllun datblygu presennol yr ysgol yn offeryn effeithiol sy'n cynnwys blaenoriaethau perthnasol a phenodol. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n dda ar gynnal a chodi safonau. Mae'n ddogfen ymarferol, gyda meini prawf llwyddiant clir a graddfeydd amser realistig, ac mae'n dyrannu adnoddau priodol i gefnogi'r gwaith. Mae uwch arweinwyr, llywodraethwyr, athrawon a staff yn gweithio'n effeithiol mewn timau bach i gyflawni'r deilliannau yn unol â phob blaenoriaeth. Un o gryfderau penodol yr ysgol yw'r ffordd y mae'r timau hyn yn monitro cynnydd yn unol â'r blaenoriaethau yn drylwyr, gan ddefnyddio ystod dda o ddulliau i gasglu tystiolaeth. Mae llywodraethwyr yn gweithio'n dda gydag uwch arweinwyr a staff i gefnogi'r camau gweithredu angenrheidiol yn y blaenoriaethau hyn a herio cynnydd yn briodol. Mae hyn yn cefnogi gwelliant ysgol yn dda.

Ceir gweithdrefnau rheoli perfformiad priodol ac mae'r rhan fwyaf o staff yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol addas, sy'n gysylltiedig â'u hamcanion perfformiad a chynllun datblygu'r ysgol. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i staff gyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol a chynyddu ymglymiad uniongyrchol staff wrth sicrhau gwelliannau. Enghraifft o hyn yw'r cydweithio â'r brifysgol leol i dargedu datblygiad medrau darllen disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac yn ymweld yn rheolaidd i fonitro agweddau ar waith yr ysgol yn uniongyrchol. Defnyddiant y wybodaeth o'r ymweliadau hyn i ddiweddarau'r corff llywodraethol llawn mewn cyfarfodydd a darparu lefel briodol o her fel ffrindiau beirniadol. Ceir ystod addas o is-bwyllgorau lle mae llywodraethwyr yn cynorthwyo a herio uwch arweinwyr yn dda, er enghraifft wrth wneud penderfyniadau mewn meysydd fel staffio a chyllid. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion. Er enghraifft, mae staff wedi cael eu hyfforddi i gyflwyno rhaglenni i wella safonau disgyblion mewn Saesneg a chefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Caiff y medrau hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu, ymddygiad, presenoldeb ac iechyd a lles emosiynol disgyblion.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

<b>Rhagorol</b>	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
<b>Da</b>	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
<b>Digonol ac angen gwelliant</b>	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
<b>Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys</b>	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: [www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/07/2018